

**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau
Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
A gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2024 am 15:30, yn 3.4 CQ2 a thrwy Microsoft
Teams**

Yn bresennol		
Mohammed Mehmet	(MM)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Nick Elliott	(NE)	Cadeirydd Dros Dro
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Yn Bresennol:		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Andrea Calise	(AC)	Rheolwr Archwilio, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol Gadawodd y cyfarfod am 16:05
Alun Lloyd	(AL)	Cynghorydd Annibynnol
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd Ariannol a Rheolaeth
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Kathryn Watts	(KW)	Archwilio Cymru
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Steve Wyndham	(SW)	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau		
Anne Beegan	(AB)	Archwilio Cymru
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Clare Jenkins	(CJ)	Is-gadeirydd
Dechreuodd y cyfarfod am 15:30		
ACGC 1/2024.07.10 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb		
Agorodd MM y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.		
Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y byddai'r cofnodion wedi'u cytuno yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi 2024.		



Cofnodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan AB, CJ a CB.	
ACGC 2/2024.07.10	Datganiadau o Fuddiant
Datganodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol fuddiant yn eitem agenda 3.4 Adroddiad Tâl 2023-24.	
ACGC 3/2024.07.10	Adroddiad Diwedd Blwyddyn
ACGC 3.1/2024.07.10	Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol 2023/24
<p>Ystyriodd y Pwyllgor dri Archwiliad Mewnol terfynol, a rhoddodd PD grynodedb ohonynt:</p> <p>Adrodd am Ddigwyddiadau (Sicrwydd Rhesymol, gydag 8 argymhelliad, 2 â blaenoriaeth isel, 6 â blaenoriaeth ganolig ac 1 â blaenoriaeth uchel.) Roedd y rheolwyr wedi cytuno ar yr argymhelliad â blaenoriaeth uchel ynghylch amseroldeb rheoli a oedd wedi rhoi camau gweithredu amserol ar waith i fynd i'r afael â'r argymhelliad.</p> <p>Seilwaith TG (Sicrwydd Rhesymol, gyda phum argymhelliad, dau â blaenoriaeth isel, dau â blaenoriaeth ganolig ac un â blaenoriaeth uchel.) Roedd y rheolwyr wedi cytuno ar yr argymhelliad â blaenoriaeth uchel ynghylch patsio switshis ac roeddynt wedi rhoi camau gweithredu amserol ar waith i fynd i'r afael â'r argymhelliad.</p> <p>Nododd y Pwyllgor gyfeiriad at Reoli Newid TG yn Adroddiad Archwilio Cymru a gofynnodd am gysylltu'r argymhellion hyn. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r argymhellion ar wahân yn cael eu holrhain gan ddefnyddio'r Traciwr Archwilio.</p> <p>Cafodd y Pwyllgor sicrwydd yr ymgynghorwyd â'r tîm Seiberddiogelwch ynghylch ymateb y rheolwyr, a bod y dyddiadau targed a restrwyd yn ddyddiadau realistig a chyraeddadwy. Roedd hyn yn dangos bod y gwaith yn cyd-fynd â'r cynllun gwaith y cytunwyd arno.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor i'r pryderon a nodwyd yn yr adroddiadau hyn gael eu hystyried yn yr adolygiad nesaf o'r Gofrestr Risg yn y Sefydliad.</p> <p>Nododd y Pwyllgor ar ddechrau'r cyfarfod na ddylai'r Adroddiad Seilwaith TG fod ar gael yn gyhoeddus oherwydd yr wybodaeth sensitif yn ymwneud â seiberddiogelwch. Cytunwyd na fyddai'r papur yn cael ei gyhoeddi, ac y byddai'r diweddariadau ar gynnydd gyda'r Camau Gweithredu hyn trwy'r Traciwr Camau Gweithredu Archwilio hefyd yn cael eu hystyried mewn sesiwn breifat ar gyfer yr Adroddiad hwn.</p> <p>Rheoli Contractau (Sicrwydd Rhesymol, gyda chwe argymhelliad â blaenoriaeth ganolig.)</p> <p>Nid oedd unrhyw argymhellion blaenoriaeth uchel yn yr adroddiad hwn. Nodwyd bod y rheolwyr wedi cytuno ar gamau gweithredu amserol i ddatrys yr argymhellion â blaenoriaeth ganolig.</p> <p>Trafododd y Pwyllgor argymhelliad yr Adroddiad ynghylch lleoliad storio copïau o contractau gan nad oedd yn glir o'r Adroddiad a ddylai'r Sefydliad, y Contractwr neu'r Bartneriaeth Cydwasanaethau gadw'r contract wedi'i lofnodi a hefyd lle dylid cadw copïau ychwanegol. Nodwyd y byddai hyn yn cael ei gofnodi yn y Traciwr Archwilio.</p>	



Nododd y Pwyllgor yr adroddiadau Archwilio Mewnol terfynol ynghylch:

- Adrodd am Ddigwyddiadau
- Seilwaith TG
- Rheoli Contractau

Ystyriodd y Pwyllgor Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol 2023/24.

Atgoffodd PD y Pwyllgor fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor ar ffurf drafft yn ei gyfarfod ym mis Mai ac nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol wedi'u gwneud. Roedd yr adroddiad wedi'i ddiweddarau i gynnwys y tri adroddiad Archwilio Mewnol terfynol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwn a oedd yn cwblhau eu Cynllun Gwaith ar gyfer 2023/24.

Yn olaf, hysbysodd PD y Pwyllgor fod ei farn yn un o sicrwydd rhesymol o ran y trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol o fewn y meysydd yr oedd y Bartneriaeth Cydwasaethau wedi'u hadolygu yn ystod y flwyddyn.

Atgoffodd HG y Pwyllgor o rwymedigaeth y Sefydliad i adrodd am unrhyw adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig neu Dim Sicrwydd i Lywodraeth Cymru. Nodwyd bod eleni wedi bod yn flwyddyn arall pan nad oedd y Sefydliad wedi cael unrhyw un o'r adroddiadau hyn a bod hynny wedi'i gydnabod yn y Cyfarfod Atebolrwydd diwedd blwyddyn gyda Judith Paget a Llywodraeth Cymru.

ACGC 3.2/2024.07.10 | Barn Flynyddol Archwilio Cymru (gan gynnwys ISA 260)

Ystyriodd y Pwyllgor Barn Flynyddol Archwilio Cymru (gan gynnwys ISA260).

Dywedodd KW wrth y Pwyllgor fod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn ddiamod ar y cyfrifon fely nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad. Nid oedd Archwilio Cymru wedi canfod unrhyw faterion arwyddocaol i adrodd arnynt i'r Pwyllgor. Nodwyd bod y Llythyr Sylwadau wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

Roedd un camddatganiad nas cywirwyd wedi'i nodi mewn perthynas â'r Sefydliad yn methu â dangos bodolaeth asedau offer.

Roedd Atodiad 3 yn dangos datganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr. Cyfeiriwyd at y rhain i gyd yn y nodiadau a oedd yn gysylltiedig â'r atodiad.

Roedd Atodiad 4 yn dangos argymhellion Archwilio Cymru a ddeilliodd o'r Archwiliad. Nodwyd bod pob un ohonynt wedi'u derbyn yn llawn gan y rheolwyr. Yn ogystal, nodwyd bod argymhelliad 3 yn effeithio ar bob Sefydliad GIG a oedd yn defnyddio meddalwedd ProLease.

Cwestiynodd y Pwyllgor y materion nad ydynt yn ymwneud â chyfrifyddu a oedd wedi'u cynnwys yn anarferol yn Adroddiad ISA260. Gofynnodd yr aelodau hefyd a oedd y pryder ynghylch ProLease wedi'i gynnwys yn adroddiad ISA260 pob sefydliad. Nid oedd Archwilio Cymru yn gallu cadarnhau a oedd y pryder ynghylch ProLease wedi'i gynnwys ym mhob adroddiad ISA260 a gyhoeddwyd.



Mynegodd y Pwyllgor anesmwythyd ynghylch y ffaith y gallai cynnwys y pryder hwn olygu bod pedwar argymhelliad ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a allai fod yn nifer uwch o argymhellion nag ar gyfer Sefydliadau eraill nad oedd y pryder, o bosib, wedi cael ei gynnwys yn eu hadroddiad ISA260.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y camddatganiad nas cywirwyd.

Dyweddodd JM wrth y Pwyllgor fod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad ynghylch y rhestr o asedau â gwerth llyfr gros o £889,000. Nodwyd yn yr adroddiad bod y materion yn ymwneud yn bennaf ag asedau a etifeddwyd pan sefydlwyd y Sefydliad yn 2009, a'i bod yn debygol efallai na fyddai'n bosibl cadarnhau perchnogaeth bellach. Fodd bynnag, nodwyd bod caffaeliadau mwy diweddar y byddai modd cadarnhau eu perchnogaeth a bod y Tîm Cyllid yn parhau i weithio i ddatrys y mater.

Hysbysodd HG y Pwyllgor nad oedd gan lawer o'r asedau unrhyw werth ac yn y flwyddyn ariannol nesaf byddai'r asedau hynny'n cael eu tynnu o'r gofrestr asedau. Yn achos eitemau o unrhyw werth, byddai'r tîm yn gweithio i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd i gywiro'r gofrestr asedau.

Byddai'r Tîm Cyllid hefyd yn cyflwyno hyfforddiant i Reolwyr ar draws y sefydliad i ddangos pwysigrwyd y gwaith hwn a sut yr oedd yn bwydo'n ôl i'r gwaith o archwilio a llywodraethu'r Sefydliad.

Cadarnhaodd SW fod y gofyniad i ysgrifennu at Archwilio Cymru i gadarnhau sefyllfa'r Sefydliad eisoes wedi'i gyflawni ac nad oedd yn effeithio ar y farn a roddwyd gan Archwilio Cymru. Cadarnhaodd HG fod barn y Sefydliad wedi'i chynnwys yn y llythyr sylwadau a gyflwynwyd i Archwilio Cymru.

Gofynnodd SW i'r Pwyllgor **nodi** diweddariad llafar ar dudalen 5 o'r adroddiad lle nodir fod maes gwaith heb ei wneud, mewn perthynas â threfniadau adolygu ffeiliau mewnol parhaus. Nodwyd fod y gwaith hwn bellach wedi'i orffen a bod yr holl waith Archwilio wedi'i gwblhau.

ACGC 3.3/2024.07.10 | Datganiad Ariannol Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2023/24

Bu'r Pwyllgor yn **ystyried** Datganiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2023/24.

Dyweddodd HG wrth y Pwyllgor fod y cyfrifon a gyflwynwyd heddiw wedi bod yn destun adolygu, addasu ac archwilio. Diolchodd i'r Tîm Cyllid a thîm Archwilio Cymru. Cyflwynodd y cyfrifon i'r cyfarfod i ofyn i'r Bwrdd argymell eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

ACGC 3.4/2024.07.10 | Adroddiad Atebolrwydd Drafft 2023/24

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Atebolrwydd Drafft 2023/24.

Atgoffodd PV y Pwyllgor fod yr adroddiadau drafft wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor ar 9 Mai, a'u bod wedi'u hadolygu wedyn gan Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod lefel y datgeliad yn bodloni gofynion Pennod 3 y Llawlyfr Cyfrifon. Roedd Archwilio Cymru wedi gwneud sylwadau yn arwain at fân



newidiadau i'r geiriad a'r diffiniadau. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w argymhell i'r Bwrdd.	
ACGC 3.5/2024.07.10	I'w Hargymhell i'r Bwrdd
Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:	
<ul style="list-style-type: none">Cymryd sicrwydd gan Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 (Eitem 3.1)Argymell y Cyfrifon Ariannol a Barn Flynyddol Archwilio Cymru (ISA260) i'r Bwrdd eu cymeradwyo. (Eitemau 3.2 a 3.3)Argymell Adroddiad Atebolrwydd 2023/24 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. (Eitem 3.4)Nodwyd unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd, y byddant yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 15 Gorffennaf 2024	
ACGC 4/2024.07.10	I'w nodi
Nid oedd unrhyw eitemau i'r Pwyllgor eu nodi.	
ACGC 5/2024.07.10	Gweinyddiaeth i Gloi
Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 10 Medi 2024 am 09:30	
Unrhyw Fater Arall	
Ni chododd y Pwyllgor unrhyw fater arall.	
Diolchodd MM i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.	
Daeth y cyfarfod i ben am 16:08	